9 Columbus Walk
Brigantine Place
Caerdydd
CF10 4BY

2-7-20

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennaf i fynegi rhwystredigaeth aelodau NAHT nad yw manylion cynlluniau dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi wedi'u cyhoeddi.

Trwy gydol y pandemig coronafeirws mae ysgolion ledled Cymru wedi cefnogi eu dysgwyr, a chymunedau ehangach yr ysgolion, ac wedi agor fel canolfannau gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed.

Mae aelodau NAHT bob amser wedi parchu'ch awydd i ddod â chymaint o blant â phosibl yn ôl i'r ysgol i gefnogi eu lles a helpu i'w paratoi ar gyfer y sefyllfa arferol newydd. Maent wedi croesawu'r dychweliad ym mis Mehefin i bob plentyn ac wedi gwneud eu gorau glas i gyfleu agwedd gadarnhaol yn ystod yr amseroedd ansicr hyn.

I lawer o ysgolion, dim ond pythefnos sydd ar ôl o'r tymor haf hwn ac nid oes eglurder o hyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut bydd pethau'n edrych ym mis Medi. Mae'n annerbyniol nad yw ysgolion, rhieni na disgyblion yn gwybod mor hwyr â hyn beth maent yn cynllunio ar ei gyfer yn nhymor yr Hydref.

Mae NAHT yn parhau i gymryd rhan yn y sgyrsiau gyda swyddogion addysg ynglŷn â'r broses gynllunio ond os na chyhoeddir eich disgwyliadau ar gyfer ysgolion a'ch cyngor manwl i gefnogi'r disgwyliadau hynny ar unwaith, bydd yn amhosibl i arweinwyr gynllunio a gweithredu'n effeithiol.

Hyd yn hyn mae'r eglurder a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch ysgolion wedi galluogi arweinwyr ysgolion i gynllunio a darparu'n effeithiol. Ond mae diffyg eglurder nawr, ar yr adeg fwyaf sensitif hon yn creu perygl y bydd plant yng Nghymru yn cael eu rhoi dan anfantais ddifrifol a diangen pan fyddant yn dychwelyd ym mis Medi.

Mae angen esboniad clir o'r hyn sydd ei angen ar arweinwyr ysgolion ynghyd â'ch arweiniad ar weithredu'r cynlluniau'n ddiogel. Yn absenoldeb yr arweiniad hwn, mae Pwyllgor Gweithredol Cymru wedi penderfynu gofyn i chi gadarnhau'r canlynol er mwyn iddynt allu cynllunio dychweliad trefnus yn y flwyddyn academaidd newydd.

- Y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol cadw'r canllaw cadw pellter cymdeithasol cyfredol o 2 fetr mewn ysgolion ar gyfer mis Medi.
- Y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag undebau llafur a rhanddeiliaid eraill trwy gydol yr haf ar gynlluniau dal i fyny pan fydd ysgolion yn dychwelyd
- Y bydd Llywodraeth Cymru yn gohirio unrhyw gyhoeddiad y bydd cyfyngiadau yn cael eu llacio mewn ysgolion tan ar ôl gwyliau'r haf gan na fydd staff ar gael i roi'r newidiadau hynny ar waith.

Roedd gweddnewid ysgolion i gydymffurfio â chanllawiau dychwelyd mis Mehefin yn dasg enfawr yn strategol ac o ran newidiadau ffisegol. Lluniwyd cynlluniau ar fyr rybudd, tynnwyd popeth ond yr hanfodion o'r ystafelloedd dosbarth, cyflwynwyd prosesau a gweithdrefnau newydd a lluniwyd asesiadau risg trwyadl. Gweithiodd timau'n ddiflino ar amserlenni dychwelyd, gwersi dal i fyny ac yn cysylltu â rhieni i dawelu eu meddwl nhw a'u plant a rhoi sicrwydd fod yr ysgol yn lle diogel i ddychwelyd iddo. Fe wnaethant hyn gan wybod beth oedd yn ddisgwyliedig ohonynt ac fe weithiodd. Mae arweinwyr ysgolion a'u timau yn barod i wneud hyn eto ar sail eich penderfyniadau, ond mae cymhlethdod y dasg yn golygu bod amser ar gyfer gwneud hynny yn prinhau.

Mae ein haelodau'n rhannu'r uchelgais o gael cymaint o blant yn ôl i'r ysgol â phosibl a byddant yn ymdrechu i wneud hynny o fewn eu cynlluniau cyfredol i gynyddu capasiti.

Mae Pwyllgor Gweithredol NAHT Cymru yn barnu, os bydd Llywodraeth Cymru yn methu â chyhoeddi ei chynlluniau a'i chanllawiau erbyn dydd Llun, Gorffennaf 6, bod risg ddifrifol na fydd ysgolion yn barod i agor ym mis Medi oherwydd na fydd amser i roi'r cynlluniau hynny ar waith. Ni allwch ddisgwyl i staff ysgolion weithio trwy wyliau'r haf pan fydd llawer wedi gweithio'n ddi-dor ers hanner tymor mis Chwefror. Ni fydd gweithlu sydd wedi blino'n lân wrth gychwyn ar y flwyddyn academaidd fwyaf heriol a brofwyd erioed o fawr o gymorth i'r plant a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Yn absenoldeb datganiad gan Lywodraeth Cymru, mae ysgolion a chyrff llywodraethu wedi cael eu gorfodi i roi eu trefniadau eu hunain ar waith oherwydd eu bod yn teimlo na allant fforddio aros yn hwy. Unwaith eto, bydd hyn yn arwain at economi gymysg ledled Cymru.

Mae safbwynt NAHT yn parhau - os yw arweinwyr ysgolion yn teimlo, ar ôl cynnal asesiadau risg ac ar y cyd â'u cyrff llywodraethu, nad yw'r ysgol yn ddiogel i'w hailagor, ein cyngor ni i'r aelodau hynny fydd peidio ag ailagor. Mae penaethiaid yn gyfrifol am eu lleoliadau ysgol eu hunain a gofynnir iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â mis Medi heb wybod beth yw eich uchelgais ac yn allweddol, pa drefniadau diogelwch y mae angen eu mabwysiadu.

Bydd dychweliad aflwyddiannus ym mis Medi yn gwneud mwy o niwed i addysg na pharhau â'r trefniadau cyfredol.

Yr eiddoch yn gywir



Laura Doel
Cyfarwyddwr
NAHT Cymru